

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 213

Pris 80c

Mis Mehefin 2019

Mehefin **29**
June
10:00 - 18:00

Castell Caerffili
Caerphilly Castle

**CERDDORIAETH
FYW
DAWSIO GWERIN
CHWARAEON
TIPI CREFFT
STONDINAU
BWYD A DIOD
GEMAU FIDEO
COSPLAY
ARDAL TRAETH
A MWY**

**LIVE MUSIC
FOLK DANCING
SPORTS
CRAFT TIPI
STALLS
FOOD AND DRINK
VIDEO GAMES
COSPLAY
BEACH AREA
AND MORE**

2019
Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

Digwyddiad AM DDIM

FREE Event

  [mentercaerffili.cymru](https://www.mentercaerffili.cymru)



PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ **Cwmni**

e-bost: [Golygydd@papurecwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurecwmni.cymru) benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW



Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru

Gŵyl Flodau Caerffili

Mae Gŵyl Flodau Caerffili ymlaen unwaith eto eleni o Ddydd Iau 20fed o Fehefin i ddydd Sul 22ain.

Mae nifer fawr o gapeli ac eglwysi'r dre yn cymryd rhan yn ogystal â Chanolfan y Twyn a'r Llyfrgell, tafarn Weatherspoons a'r Galeri.

Unwaith eto bydd dau gapel Cymraeg Caerffili, Bethel a Thonyfelin, yn ymuno i baratoi'r arddangosfeydd. Mi fydd ffrwyth eu gwaith i weld ym Methel, Ffordd Nantgarw. Beth am alw i mewn am banded a chlonc? Mae'n rhad ac am ddim. Mae Bethel ar agor rhwng 10 y.b. a 4 y.p ar Ddydd Iau, Dydd Gwener a Dydd Sadwrn, ac o hanner dydd i 4 y.p. ar y Sul.

Yn ogystal ag arddangosfeydd o flodau bydd Clwb Arlunio Dydd Gwener (The Friday Club), a Chlwb Gwnio Bethel (The Bethel Quilters) yn dangos eu gwaith anhygoel. Cyfle da i brynu anrhegion Nadolig yn rhad.



Capeli Sir Caerffili Oedfaon mis Mehefin

Bedyddwyr Tonyfelin

2ail 10.30 a 6.00 : Parch Milton Jenkins
9fed 10.30 Cyfarfod Blynyddol 6.00 Mr Cyril Smith
16ed : Yn Bethel trwy'r dydd
23ain Sul o Fawl
30ain 10.30 : Parch Lona Roberts 6.00 : Mr Ian Smith

Annibynwyr, Bethel


2ail 10.30 y.b. Parch. Gwilym Dafydd
9fed 10.30 y.b. Parch. Robert Owen Griffith
16eg 10.30 a 6.y.h. Parch. Maldwyn Jones (C yn y bore)
23ain 10.30. a 6 y.h. Gyda Tonyfelin, Sul o Fawl.

Penuel, Rhymni

2ail Parch T. Jones
9fed Rev. M. Marsdon
16eg
23ain Pastor M.I. Mortimer
30ain Parch Evan Morgan

Capel y Groeswen

16eg Rev. Alun Tudor
3;00 o'r gloch



Campau Cwm Rhymni

Ar ddechrau tymor yr ysgol ym mis Medi penderfynodd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ail -ddechrau tîm dan 18 am y tro cyntaf ers dros ddegawd. I gyd-fynd gydag ail-ddechrau'r tîm cyntaf cyflogodd yr ysgol swyddog rygbi WRU am y tro cyntaf i gefnogi a helpu datblygu rygbi ar draws yr ysgol, cyn-ddisgybl, Jack Condy.

Ymunodd yr ysgol ag ail gynghrair y dwyrain gyda'r gobaith o gwblhau pob gêm yn y gynghrair, ac ennill ychydig o gemau ar y ffordd. Dechreuwyd y tymor gyda'r gêm gyntaf yn erbyn Ysgol St Julian's Casnewydd ac enillwyd y gêm 0-53 oddi cartref, dechreuad da ac roedd y tîm yn dangos nodweddion da o allu bod yn gystadleuol yn y gynghrair.

Wrth i'r tymor barhau gwelwyd y tîm yn datblygu gan fynd o nerth i nerth yn y gynghrair gan ennill pob un o'i gemau a dim ond ildio 22 pwynt. Enillwyd y gynghrair mewn gêm agos 12-19 yn erbyn tîm corfforol Caerllion, gyda'r amodau mwdlyd yn ffafrio blaenwyr mawr y tîm cartref.

Cam nesaf i'r tîm oedd chwarae yn y gemau terfynol ym mharc Sardis yn erbyn enillydd cynghrair y de, Whitmore Y Barri, a chynghrair y gogledd, Ysgol Ioan Fedyddiwr, Aberdâr. Dechreuwyd y gystadleuaeth gyda gêm galed yn erbyn Aberdâr a'r timau yn hafal yn ôl gallu â'r gêm yn gorffen yn gyfartal, 12-12.


Chwaraeodd Aberdâr Whitmore yn y gêm nesaf gan sgorio 38 pwynt ac yn rhoi eu hunain mewn sefyllfa gref i ennill y gystadleuaeth.

Gosodwyd yr her I ni faeddu Whitmore o 6 chais i gipio'r tlws oddi ar Ysgol Ioan Fedyddiwr. Gyda'r her wedi ei gosod aeth y tîm ati i chwarae rygbi agored a sgorio 7 cais o fewn yr amser gan ennill tlws Haen 2 Ysgolion y Dwyrain dan 18.

Ar ôl y Nadolig a llwyddiant y gynghrair dechreuwyd cystadleuaeth Plât Ysgolion Undeb Rygbi Cymru. Y tro hwn roedd cymhelliant ychwanegol gyda'r tîm i lwyddo yn y gystadleuaeth yma sef chwarae'r gêm derfynol yn Stadiwm y Principality. Dechreuwyd y gystadleuaeth gyda gêm arall yn erbyn Whitmore Y Barri, ac wedyn aethom ymlaen i chwarae Porthcawl, Pencoed a Bryntirion yn y gêm gynderfynol. Eto llwyddodd y tîm i gyrraedd uwchben disgwyliadau pawb a chyrraedd y gêm derfynol. Chwaraewyd y gêm derfynol ar Fai'r pedwerydd ynerbyn Ysgol Bro Dinefwr. Yn anffodus nid oedd y tymor yn mynd i orffen gyda diweddglo tylwyth teg a chollwyd 28-15 mewn gêm gystadleuol.

Roedd y tymor wedi bod yn un llwyddiannus ac wedi gosod sylfaen dda i adeiladu ar gyfer y dyfodol. Gorffennwyd y tymor gyda'r record ganlynol: Ennill 15, Cyfartal 1, Colli 2 a hefyd cyrraedd rownd gynderfynol plât 7 bob ochr yr Urdd. Yn ystod y tymor ymwelodd dau dîm o Canada â Chwm Rhymni, Branford Collegiate Institue a Sacred Heart Ontario. Ar ôl llwyddiant y tymor mae'r ysgol yn edrych ymlaen at chwarae yng nghynghrair uwch dan 18 ardal y dwyrain gyda'r gobaith o adeiladu ar y tymor yma.

Morganiaid Tredegar oedd y teulu amlycaf yng ngorllewin Gwent am ganrifoedd nes i'r aer olaf farw yn y 1950au. Roedd ganddynt lawer iawn o dir yng nghantref Gwynllwg (Casnewydd), rhwng afonydd Wysg a Rhymni. Pan oeddynt ar anterth eu grym roedd ganddynt hefyd ystâd fawr yn Sir Frycheiniog yn ogystal ag eiddo yn Llundain a swydd Norfolk.



Roedd ganddynt lawer iawn o dir yng nghantref Gwynllwg (Casnewydd), rhwng afonydd Wysg a Rhymni. Pan oeddynt ar anterth eu grym roedd ganddynt

hefyd ystâd fawr yn Sir Frycheiniog yn ogystal ag eiddo yn Llundain a swydd Norfolk.

Yn gynnar yn yr Oesoedd Canol llwyddodd y Morganiaid amddiffyn eu tiroedd yn erbyn y Normaniaid gan esgyn i ddosbarth yr uchelwyr. Llwyddasant i ail-feddiannu'r tir a ddygwyd oddi arnynt oherwydd eu cefnogaeth i wrthryfel Glyndŵr. Roeddent wedi parhau â'r arfer canoloesol o noddi beirdd a'u diwylliant, cerddoriaeth a chanu mawl i dywysogion brenhinol Cymru, ynghyd â'r rhamant a ymdebygai i'r traddodiad sifalri Ewropeaidd.

Yn nes ymlaen yn y Canol Oesoedd, cafodd Syr John Morgan ei greu yn Farchog y Beddrod Sanctaidd yn dilyn ei ymweliad â Chaersalem i wyllo brwydrau Rhyfeloedd y Groes. Canwyd moliant iddo gan Gwilym Tew Brydydd a oedd yn aelod o deulu barddol enwog.

Roedd Syr John yn gefnogwr brwd i'r Tuduriaid ac fe roddodd gymorth milwrol i Harri'r VII pan laniodd yn Aberdaugleddau yn 1485. Fe'i penodwyd yn stiward Machen, siryf Gwynllwg a Chasnewydd a chwnstabl Casnewydd. Gweithiai'r Morganiaid yn galed i ychwanegu at eu tiroedd gan ymhel â bywyd cyhoeddus.



Plas Mawr anterth ei rym

Ail fab Syr John, sef Syr Thomas, sydd o ddiddordeb mawr i ni ar hyn o bryd. Roedd yn ysgwier o gorfflu'r Brenin Harri'r VII, swydd bwysig iawn a'i galluogai i ddod i wybod am benderfyniadau a pholisiau brenhinol.

Syr Thomas oedd yr un a sefydlodd nifer o deuluoedd 'cadét' yn yr ardal. Anfonodd ei fab Rowland i fyw ym Machen, ym Mhlas Machen mae'n debyg. O'i feibion

eraill, anfonwyd Rheinalt i Lanfedw, John i Fasaleg, efallai i Wern y Clepa lle bu ei hynafiad enwog Ifor Hael yn byw, ac Edmwnd i Benllwyn Sarth. Dyma lle ganwyd Thomas Morgan a adeiladodd Castell Rhiw'r Perai.



Gwernyclepa

Mae Plas Machen a Penllwyn Sarth gyda ni o hyd a gallwn weld adfeilion Gwern y Clepa yn y coed tu ôl i dŷ modern ym Mharc Clepa. Y cwestiwn mawr yw ble oedd y tŷ 'cadet' yn Llanfedw?




Penllwynsarth

Mae'r 'ysgubor' ganol oesol ar dir Fferm Ystâd Rhiw'r Perai yn adeilad rhestredig graddfa 2. Fe'i gelwir yn *New Mansion* erbyn hyn a hwn yw'r unig dŷ neuadd canoloesol sydd ar ôl ym Morgannwg. Nid yw'n edrych mor aruchel â'r tai eraill. A gollwyd peth ohono dros y blynyddoedd tybed?



New Mansion

Llinach Teulu'r Morganiaid hyd at 1630



Newyddion BanglaCymru

Bu misoedd cyntaf y flwyddyn yn rhai digon prysur i dîm meddygol BanglaCymru mewn sawl ffordd. Yn fisol caf adroddiadau swyddogol gan ein cydlynnydd meddygol, Dr Jishu, ar weithgarwch y feddygfa, y feddygfa symudol yn y cymunedau tlawd a hefyd ein prif genhadaeth, sef rhoi llawdriniaethau i gleifion hollt a llosgiadau. Yn ogystal â hyn, derbyniaf adroddiad ariannol ar faterion megis cyflogau'r gweithwyr, costau llawdriniaethau a'r ganolfan.

Un o'r digwyddiadau mwyaf ingol i'r tîm oedd mynd â'r feddygfa symudol yn ddiweddar i ardal heb fod ymhell o'n canolfan lle digwyddodd tân difrifol. Mae damweiniau tân yn beth cyffredin iawn yn yr ardaloedd hyn oherwydd dibyniaeth y bobl ar fflam i goginio, i oleuo a nadu'r mosgitos. Problem arall yw nad oes cyflenwad dŵr yn y mwyafrif o'r hofelau lle mae teuluoedd mawr yn byw, felly nid yw diffodd tân yn ddiymdroi yn rhywbeth rhwydd i'w wneud. Yn y tân hwn fe laddwyd deuddeg o blant a phobl, a bu tîm BanglaCymru yn ymgeleddu llawer o'r goroeswyr ddioddefodd losgiadau ac anafiadau eraill.

Ychydig wythnosau'n ôl aeth Dr Jishu a'i dîm meddygol i ddinas Tangail yn nhalaith Dhaka, tua 100km i'r gogledd o'r brifddinas yng nghanolbarth y wlad. Mae yma dri chwarter miliwn o bobl yn byw, a llaweroedd ohonynt yn byw mewn cyflwr cwbl arswydus o wael. Bu tîm BanglaCymru yn y ddinas hon sawl gwaith o'r blaen. Y tro hwn rhoddwyd llawdriniaeth i 44 o blant gan fwyaf, a rhai ohonynt â chyflwr hollt difrifol. Mae hyn yn dod â'r nifer o fywydau a newidiwyd ers sefydlu'r elusen i 1,355; a hyn i gyd yn dystiolaeth o'ch caredigrwydd chi.



Cwmalele yw enw newydd Iwcs y Cwm. Pam, meddech chi? Wel stori hir yw honno...digon yw dweud bod ambell grŵp ukulele wedi newid eu henwau yn ddiweddar er mwyn osgoi camarwain ambell ddilynwr yn y byd adloniant Cymraeg, felly dyma ni ar ein newydd wedd - CWMMALELE. Crysau T Duon yn lle glas golau a logo newydd, ond un peth sydd ddim yn newid yw'r hwyl a gawn bob nos Fawrth rhwng 6 ac 8 yng nghlwb rygbi Penalltau, Ystrad Mynach, yn dysgu sut i chwarae'r ukulele o dan arweiniad ein hathro amryddawn, Dafydd Roberts.


Yr hwn a wna ein grŵp ni ychydig yn wahanol yw mai nid strymio yn unig a wnawn. Nage! Cawn ein dysgu sut i dynnu'r tannau'n gelfydd er mwyn chwarae arpeggios, alawon clasurol, melodïau traddodiadol Cymru yn ogystal â strymio cordiau'r blues, jazz a chanu poblogaidd. Mae ystod o oedranau yn ein plith ac amrywiaeth o allu, o'r sawl sydd heb chwarae offeryn erioed hyd at unigolion sy'n chwarae sawl offeryn. Bydd Dafydd yn gosod darnau cerddorol ar sawl lefel a sain, e.e bas, alaw, harmoni a chordiau. Un o'r pethau a'm synnodd wrth gael fy nghyflwyno i'r offeryn, yw bod sawl math o ukulele i'w cael, sef y sopranino, y soprano (sydd mwyaf tebyg i'r Iwcs gwreiddiol), y cyngerdd, y tenor, y bas, y banjolele, a hwyrach bod mwy! Ac o safbwynt y canu, wel, clywn leisiau dwfn y dynion, soprano neu ddwy sydd â lleisiau sy'n ehedeg fel eosiaid uwch ein pennau ac o bryd i'w gilydd, rhaid cyfaddef, daw ambell i grawc o'n cegau! Ond mae'r pwyslais bob amser ar yr hwyl a'r cymdeithasu a, thrwy arweiniad amyneddgar ein hathro, daw rheolaeth a sglein ar ein perfformiadau ar gyfer cyngherddau.

Mae ein perfformiadau'n bennaf yn elusennol, a bydd grwpiau eraill Dafydd sydd yn ymarfer yng Ngartholwg yn ymuno â ni ar gyfer cyngherddau. Canu mewn dathliad o ddiolch i wirfoddolwyr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan llynedd ym Malpas, codi arian ar gyfer Alzheimer's yn Nhredegar Newydd a mwynhau canu yng ngwyliau haf y Mentrau Iaith. Rydym wedi canu ar ben gambo mewn fferm yng Nhwmbrân ac yng Ngŵyl y Coed Nadolig yn eglwys Llantrisant. Un o'n uchafbwyntiau eleni oedd canu "Myfanwy" a pherfformio'r darn offerynnol "Europa" yn Neuadd Dewi Sant yng Ngŵyl Ukuleles Caerdydd. Lewis Jones oedd ein hunawdydd y tro hwnnw, tra bu Huw Blainey'n canu'r unawd ym Mharti Ponty yn yr haf. Y ddau yn hudo gyda'u lleisiau unigryw.

Mae dysgu offeryn a chanu yn ffordd wych o sgleinio ac ymarfer y Gymraeg hefyd, ac yn ein plith mae llawer o ddysgwyr y Gymraeg sy'n amrywio o ddysgwyr profiadol i'r sawl sy'n dechrau ar y daith, megis Meg o Ogledd Iwerddon. Pa ffordd well o loywi iaith na dysgu geiriau swynol "Myfanwy", "a'rh ruddiau tirion..." neu idiomau cyfoes megis "ti'n werth y byd i mi" o'r gân Lleucu Llwyd gan y Tebot Piws.

Wrth sôn am yr ochr gymdeithasol, sydd mor bwysig i fwynhad y sesiynau, rhaid sôn am gyfraniad Dilys. Ynghyd â Dafydd mae Dilys mor groesawgar ac yn ceisio siarad â phob un ohonom yn ogystal â chofio ein pen-blwyddi,


Mae'r ffrindiau wedi torri eu henwau gyda'i gilydd ddwy waith ond mae **10** gwahaniaeth rhwng y ddau. Ble maen nhw?



Rwy'n gobeithio i chi gofio Dydd Ewyllys Da ar y 18fed o Fai. Mae 12 o enwau ffrindiau wedi'u cuddio yn y pôs.

DAFYDD	GWYN	HYWEL	BETHAN
GRUFFYDD	LLYWELYN	TOMOS	SEREN
DELYTH	SIÂN	FFLUR	GWEN

Mae'r plant wedi ymuno i lunio'r gair "FFRINDIAU". Mae sawl un yn ymddangos mwy nag unwaith. Allwch chi lenwi'r rhwyll?



Mae'r atebion ar dudalen 13

Cwmalele (parhad)

Trefnodd y ddau amryw o deithiau ar ein cyfer. Ym mis Chwefror buom yn y Forest of Dean yn cael sesiwn gan Matt Stead ar hanes yr ukulele a'r dulliau gwahanol o'i chwarae. Cawsom hefyd y cyfle i fynychu gweithdai yng Nghaerdydd a chlywed arbenigwyr yn dysgu a pherfformio'r ukulele. Daeth Phil Doleman o ganolbarth Lloegr atom i'r Clwb Rygbi yn Ystrad Mynach ym mis Mawrth 2019 i siarad am

gerddoriaeth traddodiadol Jwg, a chawsom noson gymdeithasol hyfryd o fwyd ac adloniant, heb anghofio noson debyg cyn y Nadolig pan y bu'r grŵp newydd, Dim Problem, yn perfformio i ni.

Yn bennaf oll, cael hwyl yw nôd y sesiynau ar nos Fawrth ac mae cael y cyfle i ganu a chreu cerddoriaeth yn codi calon, felly diolch i Dafydd am wneud y cyfle hwnnw'n bosib.

Vietnam

Wel dyma ni, rhan olaf y daith ac ar ôl oerfel Seoul, cyrraedd Hanoi. Roeddem wedi trefnu aros yn yr hen ddinas a'r wers gyntaf oedd sut i groesi'r ffordd. Roedd y lle yn berwi hefo sgwters a phobl. Does dim stop ar y traffig. Mae'r strydoedd yn gul a'r palmentydd culach fyth, yn llawn o bobl naill ai'n coginio neu yn gwerthu nwyddau. Darllenais fod yn rhaid, wrth groesi'r ffordd, peidio petruso o gwbl. Rhaid camu allan a mynd, a bydd y sgwters yn eich osgoi. Wel, haws dweud na gwneud. Roedd fy nghalon yn fy nghorn gwddw ond roedd o'n gweithio a trwy ryw ryfedd wyrth welais i ddim damwain o gwbl!



Mae Hanoi yn enw mor gyfarwydd i ni a buom yno am dridiau. Yr ymweliad cyntaf un oedd beth o'n i'n feddwl oedd Amgueddfa Ho Chi Min ond wedi ymuno â chiw oedd yn symud yn araf, dyma ni'n ffeindio ein hunain mewn adeilad enfawr hardd, symud gyda'r ciw mewn tawelwch trwy sawl stafell a dringo grisiau nes cyrraedd stafell oedd yn

dywyllach na'r lleill a sylweddoli ein bod yn hytrach mewn mawsolëwm a neb llai na Ho Chi Min ei hun yn gorwedd yn ei arch wydr yn edrych yn union fel roeddwn yn ei gofio ar y teledu hanner can mlynedd yn ôl. Dyn bychan ac eiddil yr olwg, ond ystyrir hwn fel duw gan drigolion ei wlad.

Mae'n debyg fod y corff yn mynd i Rwsia bob mis Medi i gael ei drin. Wedi darllen cymaint am hanes y wlad a gwylio cyfres o raglenni gwych ar y teledu cyn mentro ar ein gwyliau, roedd fy edmygedd o'r dyn yma wedi chwyddo. Dyn a garai ei wlad a mynnai weld cyfiawnder. Comiwnyddia, ond wedi siarad gyda sawl gyrrwr tacsî, mi fuasai Ho yn troi yn ei arch petai'n gweld sefyllfa'r wlad heddiw a'r llygreddigaeth yno.... Ond beth sy'n newydd?

Amgueddfa Ho Chi Min wedyn a phersbectif hollol wahanol o'r rhyfel. Un o'r llefydd roeddwn am ymweld â nhw oedd yr "Hanoi Hilton". Dyma'r carchar lle cadwyd peilotiaid America a saethwyd i lawr yn ystod y rhyfel. Yma bu John McCain yn garcharor am oddeutu pum mlynedd. Yn anffodus ac yn eironig braidd mae'r darn yna o'r carchar wedi ei ddymchwel a gwesty yno heddiw. Mae'r carchar gwreiddiol a adeiladwyd gan y Ffrancwyr rownd y gornel ac erbyn heddiw yn amgueddfa. Nid lle pleserus i ymweld â fo yn sicr. Mae siwt hedfan John McCain i'w weld yno.

Mae adeiladau hardd yn y ddinas o gyfnod y Ffrancwyr ac roedd y "Temple of Literature", prifysgol gyntaf y ddinas, yn werth ei weld gyda'r adeiladau hynafol.

Buom wedyn ar fordaith ym mae Halong am ddwy noson. Eto, golygfeydd eiconig gyda'r creigiau unionsyth yn codi o'r môr a phentrefi o gychod lle'r oedd pobl yn byw, a'r ferch yn rhwyfo ei siop deithiol o gwmpas i werthu pob math o nwyddau.

O Hanoi dyma hedfan i Danang, enw cyfarwydd arall. Doedd dim o'r ddinas ar ôl ar ddiwedd y rhyfel ond erbyn heddiw mae wedi ei hailadeiladu. Cawsom ryw dair noson yn Hoian, tref hyfryd o dras Tsieineaidd ryw bedwar cilometr o'r môr. Os am ddilledyn, dyma'r dref i chi. Siop teiliwr ar ôl teiliwr yn cynnig gwasanaeth eitha cyflym ac yn gallu gwneud unrhyw ddilledyn i'ch ffitio. Pa bynnag siâp!

O Hoian, hedfan i ddinas Ho Chi Min neu Saigon i chi a fi. Dyma ddinas yn llawn o adeiladau eiconig. Ymweld yn gyntaf â'r "War Remnants Museum". Gallwch ddychmygu.... persbectif gwahanol iawn o'r rhyfel i'r hyn a fwydwyd i ni. Y stafell fwyaf dirdynol oedd stafell "Agent Orange".

Dyma'r nwy a chwistrellwyd gan America o'u hawyrennau ac yma gwelwyd effaith hynny ar y boblogaeth. Mae plant yn cael eu geni heddiw ac effaith y nwy i'w weld yn glir. Darluniau fydd yn aros yn y cof.

Vietnam (parhad)



Yr adeiladau eiconig eraill welson ni oedd gwesty enwog “Caravelle” lle byddai’r newyddiadurwyr yn anfon eu hadroddiadau am y rhyfel ledled y byd. Llysgenhadaeth America, a’r delweddau fydd rhai ohonoch yn eu cofio, o’r hofrennydd olaf i adael o do’r adeilad wrth i’r Vietcong gyrraedd cyrion y ddinas. Y swyddfa bost wedi ei hadeiladu gan y Ffrancwyr a’r eglwys gadeiriol.


Ein hymweliad olaf oedd â’r “Reunification Palace.” Adeiladwyd hwn ar ddechrau’r 60au a dyma bencadlys y rhyfel yn y de. Roedd iddo steil hyfryd y chwedegau. Y rhan fwyaf diddorol oedd yr holl stafelloedd o dan y palas yn llawn o fapiau a chyfrifiaduron hen ffasiwn dros ben erbyn heddiw. Yn olaf, y clwydi tu allan i’r palas a’r ddelwedd yn fyw o hyd o danc cyntaf y Vietcong yn cyrraedd.

Roedd hon yn wlad wnaeth ddim o’n siomi. Delweddau eiconig a phobl hyfryd. Wrth gwrs, dim ond cip gawson ni ohoni ond pwy a ŵyr..... Ar ôl deufis i ffwrdd, teg oedd edrych tuag adref a dechrau meddwl am y daith nesaf.

Anwen Hill

Clwb Llyfrau Cwmni

Ar Drywydd Llofrudd gan Alun Davies



“Llais newydd hyderus ym myd sgrifennu ditectif Cymraeg” – dyna sut mae Jon Gower yn canmol awdur y nofel oedd yn bwnc trafod y clwb darllen ym mis Mai. Ac y tro’ma roedd pawb yn gytûn ac wedi ei mwynhau’n fawr. Mae’r stori’n datblygu drwy lygaid y ddau brif gymeriad, sef y ditectif ifanc, Taliesin, a’i bartner yn yr ymchwiliad, MJ, gyda gemau pêl-droed yr Ewros yn y cefndir.

Mae MJ yn dditectif profiadol a dibynadwy, er yn flêr a dros ei bwysau, a dyw gweithio gyda’r ditectif ifancach, sy’n lletchwith iawn gyda phobl eraill ac sy’n ymddwyn yn eithaf rhyfedd weithiau, ddim wastad yn hawdd iddo. Mae dylanwad y cyfresi *Scandi noir* ar y nofel yn amlwg, gyda’r llofruddiaethau erchyll a’r awyrgylch eithaf diflas ar adegau.

Ro’n i wrth fy modd gyda’r disgrifiad o’r bagiau duon yn hongian yn y coed yn Aberystwyth, fel “clogynnau gwrachod” a’r lôn gefn llawn ysbwriel tu ôl i’r tai yn Llambled, er efallai fyddai trigolion Llambled ddim mor hapus! Roedd Taliesin yn fy atgoffa i o’r fenyw ifanc awtistig, Saga, y ditectif yng nghyfres *Scandi noir*, “Y Bont”, a dw i’n eithaf sicr taw rhywun ar y sbectrwm awtistiaeth yw Taliesin, er nad oedd rhai yn y grŵp mor siŵr. Mae’r nofel ’ma yn hawdd ei darllen ac yn mynd yn gyffrous iawn wrth i’r ddau dditectif ddilyn trywydd y llofrudd a chyrraedd diwedd glo annisgwyl ac ysgytiol. Rydyn ni’n edrych ymlaen at nofel arall gan yr awdur talentog hwn.

Jan Penney

Bywyd Bro Sannan!

“Rydym ni’n gyfrannwyr mentrus, creadigol”!



Ogofau Cheddar

Acwariwm Bryste



Plant dan 5 yn astudio
bywyd o dan y môr a’i
donnau



Plant dosbarth Afallen a Bedwen yn cymharu
bywyd presennol a bywydau Oes y Garreg!



**Dim ffiniau i
ddysgu!!!**

Plant y Cyfnod Sylfaen yn dechrau thema
newydd mewn ffordd gyffrous a pherthnasol!

Gwleidyddion y dyfodol?!!

Fe gafodd ddigyblion hynaf yr ysgol gyfle euraidd i holi Rhiannon Passmore, A.C. Islwyn, yn adeilad y Cynulliad. Buon nhw’n trafod...Brexit (wrth gwrs!), a sut mae’r Cynulliad yn helpu i ofalu am yr amgylchedd.



“Gwych i groesawu [@YsgolBroSannan](https://twitter.com/YsgolBroSannan) i'r Cynulliad heddiw. Gobeithio eich bod chi i gyd wedi mwynhau’r ymweliad. Gofynnwyd i mi rai cwestiynau anodd iawn hefyd” @rhi4Islwyn

“Rydyn ni’n ddinasyddion egwyddorol, gwybodus”

Mae e wedi bod yn bleser clywed areithiau blwyddyn 5 a 6 yn ceisio perswadio cyfoedion i aros neu i adael Ewrop-gallai aelodau Tŷ’r Cyffredin ddysgu dipyn ganddynt!

Ein casgliad....aros sydd raid!!!!



Dyma ni yn ymarfer ein
sgiliau ymlacio mewn
gweithgareddau yoga!

O mae bywyd yn
braf yn
Aberbargoed!!

Profiadau
bendigedig!

*"Rydym yn
unigolion iach,
hyderus"!*



Cefin Coedwig yn helpu plant
i greu cot naturiol i'w ffrind!
Roedd rhaid cydweithio ac
arbrofi â deunyddiau! !



Gweithdy Gwyddoniaeth gyda Doctor
Dan-Jerus!!!

Pwy lwyddodd i chwyddo'r balŵn?!!



Cydweithio
gyda'r artist
Huw Aaron i
creu
cymeriadau
cwricwlwaidd!

Diolch Huw-
gawson ni
lwyth o hwyl!



Creu rhandiroedd dosbarth allan o gronfa'r
loteri - buom yn ddigon ffodus i gael grant o
£10,000 i ddatblygu'r cae y tu ôl i'r ysgol!
Bydd gennym ardal bicnic gymunedol, cwt
ieir, cylch coed a Chwts Cyfeillion!!



Cafodd Cymdeithas Hanes CwmNi wledd o ddarlith ym mis Mai, pan ddaeth Richard Gammon atom i siarad am derfysgoedd Tonypany. Amlinellodd hanes y digwyddiadau gwaedlyd ym 1909 a'r ffordd y daethant yn rhan o hanes poblogaidd de Cymru.



Yr hen felin a'r heol sy'n arwain at ffermdy Llanbradach Fawr, cartref gwreiddiol teulu Ystrad Fawr.

Pwysleisiodd Richard rôl Prif Gwnstabl Morgannwg ar y pryd, y Cyrnol Lionel Lindsay, yn ymdrechion yr awdurdodau i reoli'r sefyllfa. Efe, yn anad neb, mae'n debyg, oedd yn gyfrifol am bwyso ar Winston Churchill, yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd, i alw'r milwyr mewn – a hynny oherwydd methiant yr heddlu, dan arweiniad Cyrnol Lindsay, i gadw trefn. Roedd ei wendid fel arweinydd wedi ei feirniadu'n hallt wedyn gan arweinwyr y milwyr eu hun, a thynnodd Richard ein sylw at ei gamgymeriadau, ei ymdrechion wrth orliwio'r sefyllfa a charmarwain yr awdurdodau. Dangosodd i ni luniau'r prif gymeriadau a'r golygfeydd yn y Rhondda adeg y derfysgoedd, a dyfyniadau o'r ohebiaeth rhwng Churchill a Lindsay. Roedd hyn i gyd yn hynod o




Yr Efail

ddiddorol i fi, oherwydd i mi glywed cymaint o hanesion am 'yr hen Gyrnol Lindsay' gan 'nhadcu a 'mamgu yn ystod fy mh Bentleyndod. Daethon nhw i fyw i Ystrad Mynach ym 1915, pan oedd y Cyrnol a'i deulu yn dal i fyw ym mhlas Ystrad Fawr. Mae'n hysbyty newydd wedi ei enwi ar ôl y plas, ac wedi ei godi ar safle'r hen dŷ.

Daeth y Cyrnol Morgan Lindsay i fyw i Ystrad Fawr ar ôl iddo briodi Ellen Katherine Thomas, merch hynaf George William Griffiths Thomas, sgweiar yr ardal, yn eglwys Ystrad Mynach ym 1889. Pan fu farw Edward, unig frawd Katherine, y flwyddyn wedyn, etifeddodd Katherine y plas, a bu hi a'i gŵr yn byw yno tan iddo farw ym 1935.

Mae dylanwad teulu'r plas i'w weld yn glir yn Ystrad Mynach hyd heddiw. Cyn datblygu pwll Penallta, roedd Ystrad Mynach yn debycach i bentref gwledig na phentref diwydiannol. Y plas oedd canolbwynt yr ystad, ac o'i gwmpas roedd y gweithdai angenrheidiol – yr efail, y felin a thafarn gweithwyr yr ystad – y 'Coopers' heddiw. Pan briododd un o ferched y plas ym 1858, yno y cynhaliwyd gwledd i denantiaid y stad. Roedd swyddfa bost a thŷ'r cipar gerllaw: mae'r arwydd 'Old Post Office' a'r blwch post wedi diflannu nawr, ond fe welwch enw 'Keeper's Cottage' o hyd. Yn wir, roedd tipyn o bwysigrwydd a statws i 'Bottom Ystrad' ganrif yn ôl!



Eglwys y Drindod Sanctaidd, Ystrad Mynach

Roedd yr hen Gyrnol, fel ei ragflaenwyr, yn hoff o geffylau – yn eu bridio a'u rasio – a byddai 'nhadcu yn sôn yn aml am hyn. Mae rhai o hen drigolion Ystrad Mynach a Chefn Hengoed hefyd yn cofio'i geffylau heird d yn cael eu marchogaeth lan trwy'r pentrefi i ymarfer ar gomin Gelligaer. Ond yn rhyfedd iawn, doedd neb wedi cyfeirio at ran Cyrnol Lindsay yn nherfysgoedd Tonypany. Ydy pob atgof ohono a'i deulu wedi diflannu gyda'r plas? Neu a yw trigolion Ystrad Mynach yn ceisio diogelu enw da'r hen Gyrnol o hyd? Cewch ateb yn y rhifyn nesaf - ond mae cliw ar gael yn yr erthygl hon!

Daeth mis Mehefin! Mis mae llawer ohonon ni yn ei hoffi : dyddiau hir, tywydd braf (gobeithio!), blodau yn yr ardd. Ym mis Mehefin mae'r diwrnod hiraf sef Alban Hefin neu Heuldro'r Haf ar Fehefin 21. Ond rhaid cofio mai Mehefin yw mis yr arholiadau i rai pobl – pob lwc iddyn nhw i gyd!

Y tro yma rydyn ni'n mynd i edrych ar gerdd arall. Ysgrifennodd y bardd Eifion Wyn gerdd i bob mis yn y flwyddyn. Am ryw reswm, dydyn ni ddim yn clywed ei gerdd i fis Mehefin yn aml. Mae hi'n gerdd hyfryd a dyma ran ohoni. Gobeithio byddwch chi'n mwynhau ei darllen.

Mehefin

Onid yw'r caeau yn wyrdd, yn wyrdd,
A melyn eithin
Tan haul Mehefin
Hyd fin afonydd a min y ffyrdd

Onid yw'r blodau yn hardd, yn hardd,
Yn y gwelyau –
Ar frig y prennau –
A'u harogl esmwyth yn llenwi'r ardd

Onid yw'r ddaear i gyd, i gyd,
Fel pe yn chwerthin
Tan haul Mehefin –
A phwy chwenychai ddifyrrach byd.




Alban Hefin : the Summer Solstice

Am ryw reswm : For some reason

Onid yw..... : Aren't the..... eithin : gorse prennau : trees arogl : scent

A phwy chwenychai? : Who would wish for? difyrrach byd : a more pleasant world

Atebion Posau'r Plant



Colofn Dafydd Islwyn

Ymuno â Stryd Gilfach o'r lôn newydd, heibio i Morrisons, o flaen 104 Stryd Gilfach a chartrefi eraill. Tŷ annedd heddiw. Bu yno siop flynyddoedd yn ôl. Ynddi rhwng canol 1951 a haf 1954 bu pencadlys Mudiad Gweriniaethol Cymru. Ceisiwyd cadw siop lyfrau a llyfrgell yn yr adeilad, ond ddeg mis ar ôl ei hagor rhaid oedd rhoi'r ffidil yn y to gyda'r fenter honno. Daliwyd ati i redeg y Mudiad o'r safle tan haf 1954. Bu'r heddlu cudd yn cadw llygaid ar y lle trwy ddefnyddio llofft ffrynt drws nesa i 104. Hefyd, gwylio gweithgareddau'r lle trwy ffenest fechan uchel yn nhalcen y capel yn Cardiff Road! Un o'r pethau cyntaf a wnaeth y Gweriniaethwyr wedi setlo ym Margoed oedd cynnig cynllun i blannu coed ar domen wastraff y pwell glo! Aelod amlwg o'r mudiad oedd Ithel Davies, englynwr cydnabyddedig. Ei englyn i Marilyn Monroe yn ymylu ar fod yn un coch. Gweithiodd un, Y Diogyn:

Gŵr a'i hedd lle gorweddo – yw'r diogyn
Ar dagu wrth weithio,
Didoreth a didaro
Ar ei hyd mae'i fesur o.

Uwch i fyny'r stryd mae 109. Y perchenogion newydd wedi tynnu'r enw oedd ar y tŷ, Llys Aeron. Yma bu Miss Beryl Williams a'i theulu yn byw. Ganddi hi y cefais, flynyddoedd yn ôl, gopi o Llen Gwerin Blaenau Rhymni, casgliad Bechgyn Ysgol Lewis, Pengam 1912. Yr enw ar y llyfr ydy "Mrs D. Williams, Llys Aeron, Bargoed" ac uwch ei ben mewn llawysgrifen wahanol, "D. Williams, 109 Gilfach Street, Bargoed." Tybed ai mam Miss Williams oedd hi? Ar y dudalen gyferbyn mae brawd Miss Williams wedi torri ei enw, "E. Williams - Emlyn" a fu'n athro yn Ysgol Iau, Gilfach am flynyddoedd. Yn ystod mis Awst 1911 cafwyd cyfnod o drais gwrth Iddewig yng nghymoedd y De. Dros y ffordd i Lys Aeron bu ymosodiadau ar un neu ddwy o siopau nos Fercher, 23ain o Awst. Cyrhaeddodd y milwyr Fargoed ddydd Iau, a nos Wener a bore Sadwrn. Bu ymladd yn y strydoedd rhwng y milwyr a therfysgwyr. Cofnodwyd yn Llyfr y Ganrif,

Mae 16 Glfach Street, ar yr ochr dde wrth fynd i lawr tua thafarn y Capel a bron gyferbyn â phencadlys Clwb Rygbi Bargoed. Yma bu Alf Williams yn byw. Bu ef â'i fys ym mrywes ffrwydrad Tryweryn. Bu'n cyngori Emyr Llew sut i drin y ddyfais amseru ffrwydriaid. Pwysodd ar ei brofiad yn y fyddin Brydeinig pan hyfforddwyd ef ym maes ffrwydron. Cysylltir ef hefyd â phrotestiadau eithafol eraill yn ystod chwe degau'r hen ganrif.


Wrth grybwyll Tryweryn, mae rhywun yn cofio englynion lu a cherddi a gyhoeddwyd am yr ardal – "Capel Celyn y deng mlynedd o chwalu 1955-1965". Cofio Ysgol Celyn yn cael ei chau ar y 23ain o Orffennaf 1963 ac i Elwyn Edwards weithio englyn wrth ei gweld yn adfail,


Waliau'r ysgol ar wasgar – a lawntiau
Heb sŵn plant chwerthingar;
Roedd yno ryw hedd anwar,
Trigai ofn yn y tir gwar.

Ym mis Mehefin 1964 chwalwyd capel y pentref. Hen ewythr i Elwyn, Ifan Rowlands, y Gist Faen, Llandderfel, ond mab hynaf Y Tyrpeg, Capel Celyn a ddywedodd mewn englyn,

Ffarwel i Gapel Celyn
Ffarwel i deml y Celyn – Och! Alaeth.
Mae'r chwalwr yn ddychryn;
Meirw a byw; hawl Duw a dyn
Bwygilydd dan raib gelyn.

Ie, Cofiwn Dryweryn.





Aneurin

(Y darlun 'Mawr a Bach')

Gwelaf fy nhaid,
y dyn caled,
yn dwyn i go'
â'i gyd-was John Jones Llwyn Ysgo
y tymor a fwriodd y ddau
yn Nhai Hirion.

Clywaf
idiom am y caeau a'r cowt
yn britho eu sgwrs.

Mynnaf iddo ddal
osgo wledig
pentymor y diwylliant
bôn braich
o drin y tir.

21

Cerdd gan ein bardd lleol Dafydd Islwyn fel y mae yn ymddangos yn rhifyn cyfredol y cylchgrawn Barddas, cylchgrawn y Gymdeithas Gerdd Dafod. Teyrnged yw hi i Aneurin Jones un o hoff arlunwyr y bardd wedi'i argraffu ar un o luniau mwyaf enwog yr artist.

Ymweliad â Chrochendy Nantgarw



Gan barhau â thema crefft, crochendy Nantgarw oedd man ein cyfarfod ar brynhawn braf iawn ym mis Mai. Daeth criw ohonom ynghyd i gael ein tywys o amgylch gan un sy'n gwirfoddoli yno, sef Gwen Griffiths, Pontypridd, a mawr yw ein diolch iddi am brynhawn hynod ddiddorol. I goroni'r cyfan cawsom fwynhau paned a theisennau yn yr oruwch ystafell tra roedd Gwen yn cyflwyno hanes y crochendy.

William Billingsley oedd y cymeriad canolog. Un a symudodd i'r ardal o Loegr ac oedd yn feistr ar greu porslen o ansawdd uchel iawn. Yn wir roedd y darnau a gafodd eu creu rhwng 1813 ac 14 a rhwng 1817 a 1820 yn cael eu cyfrif fel y goreuon ledled y byd. Ffaith ryfeddol o ystyried mai lle eithaf di-nod oedd Nantgarw o'i gymharu â ffatrioedd porslen enwog ym Mhrydain ac Ewrop y cyfnod. Fe fu hefyd yn gweithio yn Abertawe am gyfnod yn cynhyrchu crochenwaith yno, ond llestri Nantgarw yw'r rhai sydd ar y brig. Mae porslen Abertawe yn werth cannoedd tra bod rhai Nantgarw yn werth miloedd. Cawsom hefyd wybod am deulu Pardoe a'u disgynyddion a brynodd yr hen ffermdy a pharhau i gynhyrchu pibelli clai gan fwyaf hyd yr 1920au ac a fu'n byw yno tan chwarter olaf y ganrif ddiwethaf.

Er mai safle eithaf bach sydd yno, mae'n werth ymweld â fe. Cewch weld adfeilion tair olyn yn yr ardd a chewch fwynhau paned yn y caffi bychan yn ogystal ag ymweld â'r gweithdy lle gwelwch artist lleol wrthi'n creu crochenwaith.

Rhwng Gorffennaf 13eg a Medi 28ain bydd arddangosfa o bwys ar y safle yn dathlu dau- ganmlwyddiant cynhyrchu porslen ar y safle gan William Billingsley.

Roedd hi hefyd yn ddiwrnod arbennig i un o'n haelodau, sef Dorothy Morgan, oedd yn dathlu ei phen-blwydd. O ran cwrteisi ni ofynnwyd ei hoed ond daeth geiriau mam i fy nghof pan ofynnais ei hoedran hi unwaith. Ei hateb hi oedd..."r'un oed â bawd fy nhroed a chydig bach hŷn na 'nannedd!"



Gwen Griffiths

Byddwn yn cyfarfod am daith o gwmpas parc Bryn Bach fis nesaf ac edrychwn ymlaen at groesawu aelodau hen a newydd i ymuno hefo ni.

Diolch i Gaynor am drefnu'r ymweliad ac i Jenni am fod mor drefnus ag arfer.

Anwen Hill

Cystadleuaeth

COSPLAY

Dydd Sadwrn
29 Mehefin
2019



3pm

Llwyfan Cosplay yn
Neuadd Gemau Fideo
Ffilifest,
Castell Caerffili



Llwyfan Cosplay Stage
12pm - Sioe Joker
2pm - Stribed Comig Iau
2.30pm - Cosplay Ailgyrchu Iau
3pm - Cosplay

Prif Wobr Cosplay/
£50
Ail Safle
£25

Cofrestrwch
cyn
Mehefin 21

morganroberts@mentercaerffili.cymru 01443 820913





Teithiau Clwb Cerdded

10:00—12:00



Mehefin 5 - Cyfarfod Cynllunio

Swyddfa Menter Caerffili
Suite 1, Parc St Margaret's,
Aberbargod, CF81 9FW

Dewch i helpu trefnu teithiau mis nesaf





HWYL

Sblash & Chân



CHWARAE

CANOLFAN HAMDDEN CAERFFILI



Dydd Mawrth

10:15am - 11:15am

Hwyl a sbri a Chanu yn y pwll

drwy'r iaith Gymraeg.

Nid yw'n wersi nofio

(Angen i rhieni bod yn y dwr)



CERDD



£13
Y 1/2 tymor

DYSGU



Oed
3 mis -
3 mlynedd

GIG NOS

FFILIFFEST



CANDELAS
GWILYM
WIGWAM
ANI GLASS
Y SYBS

TOCYN
£5

NOS WENER
28
MEHEFIN
2019

DRYSAU - 18.00



mentercaerffili.cymru



y.selaR





Rydym yn nodwyr i!
 We are sponsors of the
 'Patagonia Instrument Project'

Taith Tra Bo Dau i Batagonia

Tachwedd / November 2019
 Tra Bo Dau Tour
 to Welsh patagonia

Cynnig archebu'n
 gynnar nawr ar gae!
 Easilybird offer
 now available!

Ymunwch gyda Rhys Meirion ac Aled Wyn Davies ar daith arbennig
 i'r Wladfa ym Mis Tachwedd! Bydd elw eu cyngherddau yn yr
 ardal mynd tuag at ysgolion lleol a Menter Patagonia.

Join Rhys Meirion & Aled Wyn Davies on a special tour to Welsh Patagonia
 this November! All profits from their concerts in the region will
 go towards the local schools and Welsh projects.

Mwynhewch berfformiadau gan
 Alejandro Jones, Billy Hughes, a nifer arall
 o artistiaid lleol!
 Enjoy performances by numerous
 local artists, including Alejandro Jones
 & Billy Hughes

01970 631737 | post@teithiautango.co.uk | www.teithiautango.co.uk
 Teithiau Tango, Ffordd Alexandra, Aberystwyth, SY23 1LN



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol Trefforest CF375YB



Ar agor pob dydd Gwener 09:00 – 17:00.
 #Lolffest 6 ar Ebrill 6ed a'r 7fed (12:00 – 01:00)
www.twtlol.com

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Dydd Mercher, 19^{eg} o Fehefin

10:30 yn y caffi

Ymweliad â Pharc Bryn Bach

Dechreuwn gyda'n Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol a
 thrafodaeth ynglyn â'n rhaglen ar gyfer y flwyddyn
 2019/20.

Pawb i ddod â'u syniadau.

Yn dilyn y cyfarfod, awn am dro oddi
 amgylch y llyn, hynny yw, pawb sy'n
 dymuno!

Croeso Cynnes i chi ymuno â ni
 Addas iawn i ddysgwyr

Am fwy o wybodaeth e-bostiwrch:
gaynorw555@gmail.com

Hanes Cwm Ni

6/6/19 Gareth Thomas

lolo Morganwg: Arwr
 cenedlaethol neu ddihiryn heb
 ei ail?

4/7/19 Dr Dave Hale

Amgueddfa Rhisga ac olion y
 pethau ar ddangos sydd yn y dref
 (6:30pm yn Amgueddfa Rhisga NP11
 6GN ac wedyn taith fer o gwmpas
 y dref)



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
 hanes Cymru? Dewch i
 wrando. Croeso i bawb.
 Addas ar gyfer siaradwyr
 CANOLRADD / UWCH /
 HYFEDREDD / RHUGL



Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa:
Dydd Gwener 14 Mehefin

“Arwyr Cymru” gan Jon Gower
2 o’r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi’r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen
A’r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o’r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso i Bawb

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd Caerffili

2:00 o’r gloch

Mehefin 3ydd: Perthyn gan Sian Northey

Gorffennaf 1af: Agor Cloriau
gan John Phillips

Medi’r 9fed: Sesiwn Agored

Hydref 7fed: Llyfr Glas Nebo

Gan Manon Steffan Ros

penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

PFSS

“Yn gweithio i leihau neu ddileu risg”

ASESIAD RISG –

YDYCH CHI WEDI GWNEUD UN?

Am nodi pris heb rwymedigaeth
gan Asesydd Tân cymwys

Cysylltwch â ni:

029 20 888798 07812 636655

PFSS@hotmail.co.uk



- * Cynllunio a Rheoli Cymunedau Busnes
- * Cyngor arbenigol a chymwys
- * Offer tân ac achub
- * Hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol
- * Cyngor ac Ymgynghoriad
- * Cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau
- * Asesiad ac archwiliad risg
- * Addasu adeiladau
- * Ardaloedd arbenigol
- * Systemau nyrsiai ar alwad
- * Larwm tân a goleuadau brys
- * Gosod a gwasanaethu offer
- * Profion trydanol

resource staffing

Pam Adnoddau Staffio?



Sefydlwyd Adnoddau Staffio yn benodol i weithio o fewn y sector drwyddedig a diwydiannol gan ddarparu staff ar gyfer cwmnïau Bwyd, Diod a Diwydiannol.

Mae gennym staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio yn benodol ar eich sector chi. Gyda gwybodaeth eang o reoliadau’r sector, mae ein polisi and gweithdrefniadau wedi’u llunio i’ch cefnogi, fel client.

Deallwn fod gennym gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol i warchod ein gweithwyr ac mae gennym bolisïau penodol yn eu lle i osgoi masnachu mewn pobol a chaethwasiaeth fodern - problem o fewn y diwydiant.

Cyfarwyddwr Reolwr: **Steven John Skivens**

steves@resourcestaffing.co.uk

Adnoddau Staffio Cyf. www.resourcestaffing.co.uk

Llun y Mis

Dorne Morgan



2019
Ffiliffest
Gŵyl Gymraeg / Welsh Language and Cultural Festival

Castell Caerffili
Caerphilly Castle

Mehefin
June
10:00 - 18:00

29

